Gwasanaethau TGCh ar gyfer Ysgolion AALl Abertawe

Model Gwasanaeth
2005 - 2008

15 Awst 2004

Yr Adran Addysg
Education Department

CYNNWYS

	Tudalen
Cyflwyniad	**2**
Egwyddorion	**3**
Gwasanaeth newydd	**4**
Crynodeb o'r meysydd gwasanaeth	**5**
Cyfrifoldebau cyflwyno gwasanaeth	**6**
Materion ar gyfer pob sector ysgol	**7**
Sut bydd yn gweithio'n ymarferol?	**8**
Cwestiynau disgwyliedig	**13**
Atodiad 1: Meysydd gwasanaeth	**16** **i-xi**
Atodiad 2: Gwasanaethau technegol: crynodeb o'r cyfrifodebau	**17**

CYFLWYNIAD

Er mwyn cyflwyno cefnogaeth TGCh i ysgolion Abertawe o 2005 mae model gwasanaeth (gweler Atodiad 1) wedi cael ei greu.

Mae'r model gwasanaeth newydd hwn yn darparu:

- Rhwydwaith Band Eang Addysg (sef Edunet)
- Systemau gweinydd
- Systemau cebl rhwydwaith lleol (LAN)
- Systemau pen desg (PC ac ati.)
- E-dysgu – cyngor a hyfforddiant
- Cynhyrchion a gwasanaethau dysgu band eang (e.e. fideo-gynadledda)

Mae'r model gwasanaeth arfaethedig yn nodi newid sylweddol o'r trefniadau gwasanaeth cyfredol. Mae'n darparu ffordd o gynnig cyfuniad gwell o wasanaethau i ysgolion, cyfuniad y mae modd i'r AALl a'r TG Corfforaethol fel ei gilydd ei gefnogi.

Mae wedi cael ei greu drwy:

1. Wrando ar bryderon ynghylch y gwasanaeth ar y cyd blaenorol
2. Creu strwythur i sicrhau darpariaeth a reolir yn effeithiol ar rwydwaith band eang, a darparu'r gwasanaethau y mae ysgolion yn dweud y maent eu heisiau
3. Safoni lle mae ei angen am fod darpariaeth TG yn gweithio orau pan fydd yn cael ei chyflwyno mewn dull cydlynol, ond gan ganiatáu hyblygrwydd, yn enwedig lle bydd ysgolion uwchradd yn rheoli eu darpariaeth eu hunain yn fewnol
4. Darpariaeth lle mae pob ysgol yn derbyn mynediad cyfartal i wasanaethau sydd o safon uchel cyfartal.

Amlinellir y gwasanaethau eu hunain ar dudalen 5 ac yn fanwl yn Atodiad 1 (t.16, i-xi). Mae rhywfaint o'r derminoleg yn dechnegol, ond i ddechrau mae'n bosib y byddwch eisiau ddarllen yn fras drwy elfennau craidd y meysydd gwasanaeth i weld beth sy'n cael ei ddarparu a chan bwy.

Mae'r testun esboniadol cychwynnol (t. 2-15) yn ceisio rhoi'r egwyddorion a'r rhesymau sut a pham rydym yn cynnig rhedeg y gwasanaeth. Bydd yn rhoi hefyd rhai enghreifftiau go iawn o sut bydd yn gweithio'n ymarferol, ac yn amlygu rhai o'r materion y bydd angen i ysgolion ddelio â hwy er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth newydd yn un rhagweithiol sydd â'r nod o elwa ar botensial rhwydwaith band eang yr AALl a darparu cyfleoedd dysgu cyffrous ond perthnasol ar gyfer athrawon a disgyblion fel ei gilydd yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gwasanaeth a'r hyn a gaiff ei gyflwyno. Bydd CLG yn y dyfodol yn diffinio hawl.

YR EGWYDDORION

Bydd angen cadw arian dirprwyedig am fod y costau sefydlog yn gostau staff gan mwyaf ac mae eu hangen ni waeth beth yw nifer yr ysgolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Ymgynghori
Bydd angen i Ysgolion, Llyfrgelloedd, Dysgu Gydol Oes a chyrff eraill gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau drwy fforwm buddiolwyr.

Mae gwasanaeth TGCh ac E-ddysgu o 2005 wedi'i seilio ar:

1. **Wasanaeth Integredig.** Un gwasanaeth gydag un CLG ar gyfer cefnogaeth Band Eang, TG Gweinyddol a TG Cwricwlwm (technegol, cyngor a hyfforddiant). Mae'r holl gefnogaeth dechnegol wedi'i chyfuno fel un gweithgaredd. Fodd bynnag, mae Cefnogaeth Dechnegol a Chefnogaeth Gwricwlaidd yn ddau weithgaredd a gostir ar wahân, felly mae modd i ysgol ddewis tanysgrifio i Cefnogaeth Dechnegol yn unig neu Gefnogaeth Dechnegol a Chwricwlaidd.

2. **Dichonadwyedd a Chynaliadwyedd.** Bydd angen cadw'r holl arian dirprwyedig presennol ar gyfer TG Gweinyddol a'r rhan fwyaf o'r arian ar gyfer cefnogaeth dechnegol TG Cwricwlaidd ar hyn o bryd er mwyn darparu'r model gwasanaeth hwn. Bydd yr arian hwn yn cyfrannu at rai gwasanaethau Band Eang, SIMS, caffael, y ddesg wasanaeth, ymchwil a datblygu, pob cefnogaeth dechnegol ar gyfer ysgolion cynradd, ac unrhyw gostau sefydlog ar gyfer gwasanaethu anghenion ysgolion uwchradd.

3. **Dewis.** Mae'n caniatáu i ysgolion brynu gwasanaethau ychwanegol y tu hwnt i set graidd o swyddogaethau a ddarperir yn y model gwasanaeth.

4. **Ffocws.** Penderfynir ar yr amrediad o wasanaethau sydd ar gael gan y gyllideb gyffredinol, a thrwy flaenoriaethu gweithgareddau.

5. **Perchnogaeth.** Bydd penderfyniadau pwysig o ran blaenoriaethu gwariant yn cael eu gwneud gan Grŵp Cefnogi Buddiolwyr TGCh. Bydd angen i ysgolion dderbyn y penderfyniadau a wneir gan y grŵp hwn.

6. **Effeithlonrwydd.** Mae angen safoni'r trefniadau gwasanaeth newydd lle bo angen, ond caniatáu hyblygrwydd i ysgolion reoli eu systemau'n fewnol a datblygu eu darpariaeth TGCh, yn enwedig yn y sector uwchradd. Bydd y gofynion hyn yn cael eu cyhoeddi mewn Dogfen Bolisïau a Gweithdrefn.

7. **Sicrhau Ansawdd.** Bydd ansawdd y gwasanaeth wedi'i sicrhau ac felly bydd ysgolion yn cael gwybod am hawl ac ansawdd y cyflwyno. Bydd gan ysgolion gyfrifoldebau hefyd. Caiff y rhain eu diffinio a'u monitro. Bydd yn wasanaeth a fydd yn cyflawni statws Perfformiad.Gorau erbyn 2008.

8. **Cefnogaeth a Her.** Mae Cefnogaeth Dechnegol ar gyfer offer o'r math diweddaraf dan warant ar y safle. Mae'r AALl a TG Corfforaethol yn cydnabod y bydd rhai ysgolion yn cymryd mwy o amser na rhai eraill i gydymffurfio â'r disgwyliadau a awgrymir gan y gwasanaeth newydd hwn, ond byddwn yn cefnogi ysgolion wrth iddynt gyflawni'r trosglwyddo angenrheidiol

GWASANAETH NEWYDD

CRAIDD
Yn cael ei ddarparu fel rhan o'r gwasanaeth cyfan.

DEWISOL
Yn cael ei dalu'n ychwanegol gan ysgolion.

MAES GWASANAETH
Cynnyrch neu wasanaethau sy'n creu set arwahanol o weithgareddau.

MEYSYDD GWASANAETH O 2005 YMLAEN:

Mae'r model gwasanaeth a gynigir yma wedi'i seilio ar wasanaethau sydd, yn ein barn ni, yn angenrheidiol ar gyfer ysgolion.

Ym mis Ebrill 2004, er enghraifft, cyflawnwyd arolwg o gyflwyniad cyfredol y gwasanaeth a oedd yn cynnwys casglu gwybodaeth ar wasanaethau yn y dyfodol. Ond, mae ymgynghori dros y 12 mis diwethaf hefyd wedi helpu i lunio cynnwys y ddogfen hon.

Mae'r swyddogaethau technegol, gweinyddol a chefnogaeth gwricwlaidd craidd y mae eu hangen wedi'u categoreiddio dan **10 maes gwasanaeth**. Yn ei hanfod mae maes gwasanaeth yn set benodol o weithgareddau y byddwch yn disgwyl dod o hyd iddynt mewn darpariaeth TGCh ar gyfer dysgu. Caiff y dull hwn ei fabwysiadu er mwyn:

- helpu ysgolion i weld beth maent yn ei dderbyn, a gwerthfawrogi'r nifer o weithgareddau sy'n digwydd wrth ddarparu gwasanaeth
- caniatáu i'r AALl fonitro cyflwyniad y gwasanaeth yn fwy effeithiol drwy ddadansoddi ble mae angen gwella'r gwasanaeth
- darparu ffocws mwy clir wrth gynllunio gweithgareddau neu ehangu meysydd gwasanaeth yn ôl galw cyllidebau neu ofynion yr ysgol.

O fewn pob maes gwasanaeth mae rhestr fwy penodol o gynhyrchion neu wasanaethau. Mae'r mwyafrif yn rhai **craidd – h.y. rhai hanfodol a ddarperir** – ond mae **nodweddion dewisol** hefyd. Ar hyn o bryd mae rhai gwasanaethau'n ddewisol am fod yn rhaid gwneud penderfyniad ar sut maent yn cael eu hariannu. Yn gyffredinol fodd bynnag, mae nodweddion dewisol yn wasanaethau y mae modd i ysgolion ddewis talu ar eu cyfer, neu beidio, ond dim ond os yw'r ysgol yn y CLG.

Byddwch yn gweld bod gwahaniaethau rhwng ysgolion Cynradd, Arbennig ac Uwchradd o ran sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno. Mae hyn yn cydnabod y gefnogaeth dechnegol fewnol sydd ar gael i'r sector uwchradd ar ffurf technegwyr ysgol.

Mae modd hefyd i'r AALl gael gafael ar arian nad yw ar gael i ysgolion unigol neu grwpiau o ysgolion. Mae modd defnyddio'r arian hwn i dalu am, neu roi hwb sylweddol i brif brosiectau ar raddfa eang. Ond mae hyn yn ddibynnol ar bob ysgol yn cymryd rhan mewn un model gwasanaeth.

CRYNODEB O'R MEYSYDD GWASANAETH

1. **Band Eang yr AALl**	Ymchwil a rheolaeth o ran cynhyrchion a rhwydwaith Band Eang; bod yn ddarparwr gwasanaeth ISP ar gyfer y Rhyngrwyd; mynediad i'r Rhyngrwyd gyda hidlwr; danfon e-bost i ysgolion; comisiynu ymgynghoriaeth a phrosiectau; cyfleuster desg wasanaeth ar gyfer materion rhwydwaith.
2. **Gwasanaethau a Chynhyrchion Rhyngrwyd**	Darparu cyngor, diweddariadau, polisïau, fforymau a chynnwys cwricwlaidd ar-lein ar gyfer staff ysgolion a dysgu gydol oes; trosglwyddo data rhwng ysgolion a'r AALl.
3. **Blaenoriaeth CSA yr AALl: Monitro a Chyngor**	Comisiynu a monitro cefnogaeth ar gyfer effeithiolrwydd ysgolion a hyfforddi. Nodi a lledaenu arfer da mewn TGCh ac E-ddysgu
4. **Cefnogaeth gwricwlaidd a hyfforddi TGCh**	Cyrsiau hyfforddi ar unrhyw agwedd ar TGCh cwricwlaidd; hyfforddiant yn yr ysgol/oddi ar y safle gan gynnwys sesiynau ar ôl ysgol
5. **Cefnogaeth dechnegol a hyfforddiant TGCh**	Hyfforddiant yn yr ysgol/oddi ar y safle ar TG ar gyfer swyddfeydd; hyfforddiant ar gyfer technegwyr ysgol.
6. **Caffael**	Paratoi manylebau caledwedd; contractau prynu a lesio; sicrhau cydymffurfiad; gwaredu.
7. **Desg Wasanaeth**	Darparu cyfleuster desg wasanaeth sengl gan gynnwys derbyn a phrosesu galwadau a weithredir gan drydydd person. Bydd hyn yn ymdrin â materion TG gweinyddol, cwricwlaidd a band eang.
8. **TG Gweinyddol Ysgolion**	Cefnogaeth ar gyfer modiwlau SIMS, gydag ysgolion a defnyddwyr yn yr AALl fel ei gilydd, gan gynnwys pob gosod ac uwchraddio; bydd angen rheoli data fel rhan o'r prosesau rheoli gwybodaeth; hyfforddiant.
9. **Cefnogaeth Pen Desg a rhwydweithiau ysgolion – Gweinyddol a Chwricwlaidd**	Cefnogaeth ar gyfer isadeiledd rhwydwaith yr ysgol gan gynnwys gweinyddion, gweithfannau, perifferolion ac offer cyfathrebu, gan gynnwys cadw wrth gefn, diogelwch, cyfleusterau argraffu, meddalwedd gwrth firws, cefnogaeth ar gyfer systemau gweithredu; cynnal a chadw offer o fath ac o dan oedran a gytunwyd arnynt.
10. **Caledwedd a Meddalwedd**	Gosod a ffurfweddu meddalwedd cwricwlaidd; caledwedd; gwasanaeth cynnal a chadw caledwedd ar gyfer offer gan gynnwys rhannau a chostau llafur.

Maes Gwasanaeth	**Disgrifiad**

CYFRIFOLDEBAU CYFLWYNO'R GWASANAETH

AALl

Bydd yr AALl yn sicrhau bod:

1. Pob maes gwasanaeth yn cael ei gyflwyno
2. Prosesau caffael priodol yn cael eu gweithredu
3. Un cyflenwr uniongyrchol yn unig ar gyfer cefnogaeth dechnegol – Adran TG Corfforaethol Dinas a Sir Abertawe
4. Staff yr AALl yn cyflawni'r swyddogaethau ym Meysydd Gwasanaeth 3 a 4 (Cyngor, Monitro, Cefnogi'r Cwricwlwm)
5. Rheolaeth strategol, rheolaeth ariannol, monitro ansawdd y gwasanaeth, a dylunio a defnyddio'r rhwydwaith band eang yng ngofal y Cydlynydd TGCh ac E-ddysgu yng Ngwasanaeth Cynllunio ac Adnoddau'r Adran Addysg
6. Dogfen CLG yn cael ei darparu ar gyfer y gwasanaeth
7. Dogfennaeth Polisïau a Gweithdrefnau ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu darparu.

YSGOLION

Bydd angen i ysgolion sicrhau eu bod nhw'n:

a) Dilyn set ddiffiniedig o bolisïau a gweithdrefnau er mwyn defnyddio'r rhwydwaith Band Eang a gwasanaethau eraill

b) Defnyddio Adran TG Corfforaethol Dinas a Sir Abertawe ar gyfer cefnogaeth dechnegol, lle bo'n briodol.

Mae'r rhestr o nodweddion ym mhob maes gwasanaeth (wedi'u rhestru yn Atodiad 1) yn nodi'r hyn y dylai'r maes gwasanaeth hwnnw ddarparu ar gyfer ysgolion o fis Ebrill 2005. Bydd angen amser i ddatblygu'r Mewnrwyd yn llawn. Er y bydd bron i bopeth arall mewn lle o'r diwrnod cyntaf, bydd yn rhaid i ysgolion dderbyn bod gwasanaethau penodol yn cael eu cyflwyno i ysgolion ar sail rhaglen dreigl. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd prynu peiriannau a brydleswyd gan ysgolion cynradd gael ei gyflwyno yn y dull hwn.

Nodir gwahaniaethau rhwng anghenion ysgolion Uwchradd ac ysgolion Cynradd ac Arbennig lle bo'n berthnasol.

Bydd gan ysgolion Arbennig a disgyblion gydag Anghenion Arbennig ofynion sy'n ychwanegol at y gwasanaethau a restrir yma.

MWY O FATERION AR GYFER POB UN O'R SECTORAU YSGOL

…mae'r rhain yn rhagofynion ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth yn llwyddiannus.

Uwchradd – rhwydweithiau cysylltiedig
Mae angen i'r AALl a'r ysgolion gynllunio ar gyfer rhwydweithiau Gweinyddol a Chwricwlaidd Cysylltiedig a dyna pam mae'n bwysig cael y strwythur Cyfeiriadur Gweithredol hwn mewn lle nawr.

Gwasanaeth a Reolir
Lle mae systemau, meddalwedd ac offer wedi'u rheoli ar eich cyfer mewn ffordd integredig – gan adael i chi ganolbwyntio ar y dysgu a'r addysgu.

YSGOLION UWCHRADD

a) Bod â systemau gweithredu Windows ac offer cyfredol a fydd yn addas ar gyfer cyflwyno band eang
b) Bod ag o leiaf un technegydd – ac o bosib technegydd rhwydwaith a phen desg – yn eich ysgol, gan sicrhau bod ganddynt y lefel gymhwysedd leiaf (y bydd yr AALl yn eich cefnogi wrth ei chyrraedd) ar gyfer LAN a systemau pen desg
c) Rheoli eich offer TG a'ch rhwydweithiau o fewn yr ysgol
ch) Cynnwys rheolaeth yr ysgol, dysgu ac addysgu gan ddefnyddio TGCh fel rhan o'u Cynllun Datblygu Ysgol.

Sut bydd yn gweithio?
Mae TG Corfforaethol yn rheoli gwasanaethau i reolwr parth* yr ysgol o fewn Strwythur Cyfeiriadur Gweithredol Windows** y bydd angen i bob ysgol gydymffurfio ag ef. Bydd TG Corfforaethol yn rhoi cyngor ynghylch offer Cyfeiriadur Gweithredol Lleol, ond wedyn mae'r gweinyddion cwricwlaidd a'r LAN wedi'u rheoli gan dechnegydd yr ysgol, gyda hyfforddiant a drefnir gan yr AALl. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion o ran rheoli eu hanghenion eu hunain.

Cynhelir y gweinyddion Gweinyddol gan TG Corfforaethol.

Mae staff technegol yr ysgol hefyd yn gosod, yn cynnal a chadw ac yn uwchraddio pob cyfrifiadur (Gweinyddol a Chwricwlaidd) gyda chaledwedd a meddalwedd.

Mae technegwyr yr ysgol yn defnyddio TG Corfforaethol ar gyfer cyngor, hyfforddiant a chefnogaeth wrth gefn.

YSGOLION CYNRADD AC ARBENNIG

a) Bod â systemau gweithredu Windows ac offer cyfredol a fydd yn addas ar gyfer cyflwyno band eang
b) Bydd y gwasanaeth wedyn yn canolbwyntio ar weinydd integredig, LAN, cefnogaeth ben desg a meddalwedd
c) Cynnwys rheolaeth yr ysgol, dysgu ac addysgu gan ddefnyddio TGCh fel rhan o'u Cynllun Datblygu Ysgol.

Sut bydd yn gweithio?
Bydd ysgolion yn derbyn ffurf ar wasanaeth a reolir. Bydd y gweinydd yn cael ei reoli gan TG Corfforaethol er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o'r rhwydwaith band eang. Mae'r gweinyddion yn Neuadd y Sir er byddwch yn derbyn offer rhwydwaith i newid grwpiau e-bost ac ati. Mae'r gweinyddion hyn yn cysylltu â'ch systemau Windows 2000 neu uwch pen desg. Mae modd anfon meddalwedd drwy'r rwydwaith band eang fel nad oes angen i'r technegydd adael Neuadd y Sir i wneud y gwaith hwn. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid cefnogi'r meddalwedd cwricwlaidd mewn pecyn offer a gytunwyd.

* Y rheolwr parth yw'r gweinydd sy'n rheoli mynediad i adnoddau'r rhyngrwyd o fewn strwythur y Cyfeiriadur Gweithredol e.e. mewngofnodi, dilysu ac ati
** Mae'r Cyfeiriadur Gweithredol yn darparu dull hierarchaidd o storio gwybodaeth am endidau sy'n seiliedig ar y rhwydwaith fel pecynnau, ffeiliau, argraffwyr a data. Mae'n darparu dull cyson o enwi, lleoli, cyrchu a rheoli'r adnoddau unigol hyn.

SUT BYDD YN GWEITHIO'N YMARFEROL?

CAFFAEL

Mae Caffael yn broses sy'n rheoli ffynonellu, prynu, lesio, gwasanaethu ac amnewid offer mewn ffordd gost-effeithiol. Nid prynu'n unig ydyw.

Cyfrifoldeb yr Ysgol

Os ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth caffael, mae ysgolion yn gyfrifol am dalu am ddarpariaeth offer TG, gan gynnwys systemau pen desg. Mae systemau pen desg yn cynnwys unrhyw fath o offer sy'n cysylltu â phwynt rhwydwaith neu eitem arall o offer pen desg. Bydd hyn yn cynnwys:

- Offer rheoli, teganau robot, ac ati
- Taflunwyr data a byrddau gwyn rhyngweithiol
- Systemau pen desg
- Gliniaduron
- Monitorau, bysellfyrddau a dyfeisiau pwyntio
- Llech gyfrifiadurol
- Argraffwyr, Sganwyr a pherifferolion eraill

Systemau pen desg

Bydd y nodweddion canlynol yn gymwys ar gyfer darparu gwasanaethau pen desg gan TG Corfforaethol i ysgolion sydd eisiau defnyddio'r gwasanaeth hwn:

a) Bydd gweithgareddau caffael a pholisïau rheoli newid yn rheoli ansawdd y dechnoleg newydd. Bydd hyn yn lleihau'r risg bod cyfrifiaduron ac offer arall yn segur am nad ydynt yn gweithio ac yn sicrhau gwasanaethau gwarant ar ôl gwerthu

b) Cyfyngir cefnogaeth dechnegol i offer dan warant a gafwyd drwy TG Corfforaethol neu gyflenwyr eraill a gytunwyd. Mae'n rhaid prynu neu lesio'r mwyafrif o'r offer TG newydd gyda gwarant ar y safle tair neu bedair blynedd drwy gyflenwyr a gymeradwywyd gan TG Corfforaethol neu drwy dendro

c) Bydd offer pen desg yn cael ei ffynonellu a'i gostio'n benodol i'w ddefnyddio ar gyfer y cwricwlwm ysgol. Bydd hyn yn darparu offer sy'n briodol i'w ddefnyddio tra'n arbed arian i ysgolion

ch) Bydd TG Corfforaethol yn hwyluso'r defnydd o gynllun lesio neu allu benthyg yr Awdurdod Lleol fel bod modd i ysgolion ymrwymo i amnewid systemau pen desg yn rheolaidd

d) Bydd atodlen o offer sydd i'w gynnwys gan y cytundeb yn diffinio cwmpas a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer pob ysgol unigol

dd) Bydd mesurau perfformiad yn cael eu cytuno

e) Oherwydd bod gwallau'n ymddangos gan mwyaf wrth i rywun geisio gwneud rhywbeth ar ei gyfrifiadur pen desg neu ddyfais arall, y pwynt cyswllt cyntaf y tu allan i ysgol fydd Desg Wasanaeth a fydd yn cymryd perchnogaeth ar y broblem.

Nid yw hyn yn atal ysgolion yn y gwasanaeth rhag prynu'r model o gyfrifiadur maent ei eisiau, er enghraifft. Y pwynt yw nad oes dim gwarant y bydd unrhyw ran o'r broses yn cael ei hwyluso gan TG Corfforaethol os ydynt yn gwneud hynny.

SUT BYDD YN GWEITHIO'N YMARFEROL

Cyfrifiadur un fanyleb yr AALl

Mae ysgolion uwchradd yn gallu cael cyfrifiadur un fanyleb hefyd ond mae eu technegydd nhw sy'n cysylltu offer pen desg.

Cyllido lesio

Mae offer a lesir yn eiddo'r cwmni sy'n darparu'r arian. Nid yw byth dan berchnogaeth yr ysgol yn ystod tymor y les.

CYFRIFIADURON A LESIO – YR YSGOL GYNRADD

Mae'r AALl eisiau cynnig i ysgolion Cynradd yn benodol, cyfleuster lesio ar gyfer cyfrifiaduron cwricwlaidd. Mae'r ffocws yn cyfrifiadur un fanyleb, gydag opsiynau o ran lle cof a math o fonitor. Gydag ef mae yna allu i gael pecyn offer meddalwedd

Caiff manyleb safonol a pecyn offer meddalwedd eu diffinio ar gyfer pob ysgol. Bydd yn addas i'r diben wrth gadw mewn cof cost cyfan perchnogaeth. Bydd ymarfer ymchwil a thendro'n nodi'r cyflenwr a byddwn yn dechrau ar gontract i gyflenwi ysgolion yn Abertawe

Mae'r cyfrifiaduron yn dod i'r ysgol gyda "delwedd" o'r pecyn offer meddalwedd. Rydych chi neu'r gosodwr yn dadbacio'r cyfrifiaduron. Byddant yn gosod y cyfrifiaduron ar y rhwydwaith ynghyd ag unrhyw feddalwedd ychwanegol y cytunwyd arnynt, neu bydd ein cefnogaeth dechnegol ni yn gwneud hynny.

Yn ogystal â hynny, bydd cytundeb lesio neu fenthyg yn cael ei gytuno fel bod gan ysgolion gyfleuster cost-effeithiol ar gyfer amnewid cyfrifiaduron. Yn amodol ar reoliadau ariannol, rydym eisiau cynnig y canlynol i ysgolion:

- Lesio sy'n seiliedig ar dalu'n ôl 100% o'r gwerth (na chaiff ei ganiatáu dan reoliadau lesio cyfredol ond yn cael ei ganiatáu dan reoliadau benthyg)

- Yn debyg o fod yn dymor pedair blynedd os oes modd trefnu'r warant

- Byddai trefniadau lesio'n cael eu gweinyddu gan isadran caffael Gwasanaethau Cefnogi TGCh Dysgu a'u harchwilio gan Adran Gyllid DASA.

Mae'n debyg y bydd lesio'n rhaglen dreigl a reolir lle mae ysgolion yn cynllunio ar gyfer prynu ar adegau a bennir.

Mae dau fater gwahanol wrth ddechrau prynu cyfrifiaduron: cyflenwr a chwmni sy'n darparu'r arian ar gyfer y les. Bydd cost lesio bob amser yn dibynnu ar gyfraddau llog a graddfa'r pwrcasu ar unrhyw adeg benodol. Nid oes modd i ni reoli'r ffactor cyntaf, ond mae modd i ni reoli'r raddfa drwy roi gwybod i'r cyflenwr pryd bydd y les yn cael ei gweithredu ynghyd â'i gwerth. Felly, byddai casglu archebion gan ysgolion unwaith y tymor yn ymddangos ei fod yn cynnig hyblygrwydd yn nhermau angen yn erbyn cost. Byddai modd hwyluso bargen well drwy gael gwybod am anghenion blynyddol. Byddai'n fanteisiol cyflawni pris sefydlog ar gyfer blwyddyn ariannol er mwyn cynorthwyo eich cynllunio cyllidebol drwy ddod o hyd i fargen cyflenwi/lesio ar y cyd ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol 2005 i 2006.

SUT BYDD YN GWEITHIO'N YMARFEROL?

Datrys problemau

Dan reoliadau cyfredol, mae'n rhaid i eitem o offer fod yn werth o leiaf 10% o'i bris prynu gwreiddiol (sef gwerth gweddilliol). Mae gan fyrddau gwyn a thaflunwyr ddisgwyliad oes hirach na chyfrifiaduron, felly mae angen iddynt gael lesoedd hirach.

Opsiwn i'w ystyried yw arian a fenthycir gan yr AALl

Mae pris prynu cyfrifiadur tua 25% o'i gost cyfan.

OFFER A ETIFEDDWYD

Mae'r system ben desg yn torri i lawr. Mae cefnogaeth dechnegol yn nodi mai gwall caledwedd ac nid meddalwedd ydyw. Defnyddir y gwarant ac mae technegydd o naill ai'r cyflenwr neu ein tîm cefnogaeth dechnegol ni yn ymweld â'r ysgol i'w atgyweirio. Os mai gwall delwedd feddalwedd safonol ydyw, bydd hyn yn cael ei ddatrys gan ein hadran gefnogaeth dechnegol ni. Bydd hyn i gyd yn digwydd o fewn terfynau amser a ddiffinnir. Os nad oes modd ei atgyweirio am fod gennych beiriant safonol, mae modd anfon cyfrifiadur arall atoch yn gyflym a'i roi ar y rhwydwaith.

Mae lesio'n gallu bod yn gymwys hefyd ar gyfer gliniaduron, llechi cyfrifiadurol, byrddau gwyn a thaflunwyr, lle mae modd gweithredu proses ddiagnostig debyg er mwyn atgyweirio gwallau.

Ar ddiwedd y les, tynnir yr hen offer ymaith a gweithredir yr un broses gaffael er mwyn amnewid y pecyn.

Mae lesio'n ymarferol ar gyfer prynu swmp o offer yn unig. Ar gyfer cyfrifiaduron gyda manylebau uwch neu archebion arbennig, byddwn yn dal i brynu, ond bydd modd i'r tîm caffael gael bargen well na phetai'r ysgol wedi prynu o gatalog

Galla i brynu yn lle?

Gallwch. Rydym yn deall bod ysgolion yn derbyn grantiau neu dalebau ar gyfer prynu offer, a chyhyd â bod TG Corfforaethol yn cytuno ar y fanyleb a'r model, mae'n iawn prynu'n syth. Y pwynt pwysig i'w gofio yw na fydd offer yn cael ei gefnogi y tu hwnt i fywyd ei warant o fewn y cyllidebau sydd ar gael ar gyfer y cytundeb gwasanaeth arfaethedig hwn. Mae'n bosib hefyd y bydd yr ysgol yn gyfrifol am gefnogi offer ar, a thynnu offer oddi ar, unrhyw rwydwaith gwasanaethu a reolir gan TG Corfforaethol pan na fydd y pwrcasu'n rhan o strategaeth gaffael a gytunwyd. Fodd bynnag, bydd TG Corfforaethol yn gwneud eu gorau glas dan y fath amgylchiadau.

Nodwch hefyd fod y gwasanaeth caffael yn cynnig chwiliad am bris safonol ar gyfer offer penodol y mae ysgolion eisiau ei brynu, a bydd mathau o offer lle mae prynu'n fwy synhwyrol beth bynnag.

Bydd caffaeliad hefyd yn cynnig manteision ar gyfer pob ysgol wrth iddynt brynu meddalwedd ar gost is ar gyfer trwyddedau gweinydd a chlient (mae trwydded glient yn un rydych yn ei thalu am ddefnyddio meddalwedd ar gyfrifiadur pen desg).

Mae'r AALl yn cydnabod y gall y gwaith symud ysgolion o ddulliau cyfredol o weithio a gwella stoc yr offer er mwyn iddo gydweddu â rhwydwaith modern yn gofyn am adnoddau ychwanegol.

Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i gefnogi eu hanghenion offer etifeddol tra'n eu helpu i gynllunio symud i offer a rhwydweithiau o safon uchel.

SUT BYDD YN GWEITHIO'N YMARFEROL?

Mae lesio'n rhan o'r broses gaffael

Gwrando ar geisiadau ysgolion
Mae ysgolion Uwchradd wedi gofyn am un mewngofnod ar gyfer staff. Mae un mewngofnod yn golygu un rhwydwaith. Mae un rhwydwaith yn golygu bod yn rhaid i'r rhanfa artiffisial rhwng TG Gweinyddol a CLG Cwricwlaidd fynd.

CYSYNIAD GWASANAETH BAND EANG INTEGREDIG

Nid yw gwahanu gweithgareddau I feysydd ariannu gwahanol yng nghyd-destun band eang yn gweithio oherwydd cysylltedd rhwng meysydd gwasanaeth. Mae hyn yn atal dull dewis a chymysgu o dalu am un maes gwasanaeth ond nid yr un arall.

Er enghraifft, er mwyn **caffael**, mae'n bosib y bydd angen arnoch:

- reolaeth prosiect ar fenter fel rhaglen ddosbarthu systemau pen desg dreigl
- mewnbwn gan swyddog technegol er mwyn profi manylebau peiriannau, ac ymdrin â dosbarthu, materion cynnal a chadw a gwaredu; cysylltiad â staff yr uned Fand Eang sy'n cynghori ar faterion cydweddu
- desg wasanaeth i ymdrin â cheisiadau a dilyn y broses gaffael drwyddi draw; cefnogaeth reng flaen neu ail reng ar gyfer materion cynnal a chadw
- tîm archebu a gweinyddu.

Byddwch yn gweld bod y gweithgaredd hwn yn gofyn am staff o lawer o feysydd gwasanaeth, nid staff swyddfa'r is-adran gaffael yn unig. Nid yw'r staff yn gweithio mewn seilos a rhennir arbenigedd ar draws pob is-adran felly nid oes modd i ni wahanu gweithgareddau rhwng meysydd gwasanaeth.

CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

Bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei greu. Bydd yn defnyddio mesurau gwrthrychol i werthuso effeithiolrwydd darpariaeth y gwasanaeth i ysgolion. Bydd hefyd yn cydnabod yr angen am raglen barhaus o welliant yn y gwasanaeth fel bod safonau'n cael eu codi dros amser.

Mesur ansawdd y gwasanaeth – gall mesurau fod fel a ganlyn:

- Gweithgaredd gwasanaeth a gyflwynwyd o fewn cyfnod amser penodol
- Effaith ar welliant safonau mewn ysgolion
- Lleihad yn nifer y cwynion
- Ansawdd y cyngor
- Blaenoriaethu cefnogaeth
- Diffinio hawl
- "Y ffordd y cyflawnir y swydd" –ymagwedd broffesiynol staff
- Ymatebolrwydd y ddesg wasanaeth.

Monitro'r gwasanaeth – Casglu gwybodaeth drwy:

- Adroddiad blynyddol
- Adolygiad blynyddol
- Adroddiadau o'r Ddesg Wasanaeth
- Cyfarfod Tymhorol Grŵp y Defnyddwyr
- Arolwg mewn ysgolion - arolwg ar ôl y 6 mis cyntaf, ac unwaith y flwyddyn wedyn.

SUT BYDD YN GWEITHIO'N YMARFEROL?

POLISÏAU A GWEITHDREFNAU

Gan ddilyn yr egwyddor o weithio gyda'n gilydd, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithio er lles pawb ac nad yw diogelwch y rhwydwaith Band Eang yn cael ei beryglu, mae'n bwysig i ysgolion ddilyn polisïau a gweithdrefnau. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o bolisïau a gweithdrefnau:

1. Tanysgrifio i'r gwasanaeth am o leiaf 3 blynedd er mwyn sicrhau ymarferoldeb
2. Defnyddio'r Strwythur Cyfeiriadur Gweithredol y mae TG Corfforaethol yn ei greu fel bod modd cyflwyno gwasanaethau a chynhyrchion at safonau'r diwydiant
3. Defnyddio meddalwedd gwrth firws a gymeradwywyd gan TG Corfforaethol er mwyn sicrhau bod eich rhwydwaith chi a'r rhwydwaith Band Eang yn cael eu diogelu rhag firysau
4. Dilyn arweiniad o ran defnyddio offer rhwydwaith, eto, fel bod modd cyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau
5. Dilyn polisïau Defnydd Derbyniol ar gyfer defnyddio'r rhwydwaith Band Eang
6. Rhoi caniatâd i TG Corfforaethol fonitro system rwydwaith ysgol er mwyn sicrhau nad yw rhwymedigaethau'r AALl o ran diogelwch plant a phobl ifanc yn cael eu peryglu

COSTAU

Gallwn gyflwyno gwasanaeth da, gyda digon o faint, heb gost ychwanegol gyda'r arian sydd o fewn y system yn barod.

A fydd y gwasanaeth newydd yn costio mwy?

Mae modd cyflwyno'r nodweddion craidd ym mhob maes gwasanaeth (gweler Atodiad 1) o fewn y cyllidebau cyfredol, yr un dirprwyedig a'r un a reolir yn ganolog, a chyda'r arian sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar reoli'r rhwydwaith band eang.

Fodd bynnag, nid yw'r fformiwla ddosbarthu gyfredol yn ymarferol.

Yn nhermau ailddosbarthu costau rhwng y sectorau Cynradd ac Uwchradd, bydd yn rhaid seilio'r costau am wasanaethu ysgol Gynradd ar yr offer a'r rhwydweithiau a gefnogir ym mhob ysgol. Yn y sector Uwchradd, mae cost gwasanaethu ysgol yn swm sefydlog, i bob pwrpas, sydd yr un fath ar gyfer pob ysgol (fel yn y fformiwla gyfredol ar gyfer TG Gweinyddol).

Mewn ysgolion, bydd hawl yn cael ei benderfynu gan ddyraniad amser, yn ogystal â maint ac ansawdd yr offer a gaiff ei gefnogi. Bydd y lwfans yn ddigon i gwmpasu anghenion yr ysgol.

Nid yw hynny'n cynnwys costau ar gyfer gwaith adeiladu mewn ysgolion, prynu offer, nwyddau traul, ac o bosib trwyddedau cwricwlwm a rhwydwaith penodol (mae Websense a SIMS wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth safonol, fodd bynnag) a darnau sbâr (oni bai eu bod dan warant).

CWESTIYNAU DISGWYLIEDIG

Ariannu, Polisïau a Gweithdrefnau

Ariannu Dirprwyedig
Ar gyfer pob sector ysgol bydd yr arian dirprwyedig cyfredol ar gyfer cefnogaeth gwricwlaidd yn cael ei rannu'n cefnogaeth ddysgu a chefnogaeth dechnegol. Bydd ariannu ar gyfer swyddogaethau cefnogaeth dechnegol penodol yn cael ei gadw.

Beth yw'r rhesymau dros orfod dilyn polisïau a gweithdrefnau a chadw peth arian dirprwyedig?

1. Mae'r AALl yn gallu canolbwyntio ar sicrhau gwasanaeth o safon uchel ar gyfer ysgolion.

2. Mae gweinyddiaeth y gwasanaeth gan yr AALl yn dod yn fwy effeithlon. Mae rheoli ysgolion mewn dau fecanwaith ariannu gwahanol, sef y sefyllfa bresennol, yn aneffeithlon iawn. Mae'n arwain at wrthdaro a chost ychwanegol wrth gyflwyno, ac mae'n gwyrdroi staff allweddol o gyflwyno'r gwasanaeth.

3. Mae cyflawni arbedion maint wrth gaffael trwyddedau, meddalwedd ac offer yn cadw'r costau i lawr ar gyfer pob ysgol.

4. Mae Band Eang i weinydd(ion) yr ysgol, y Ddesg Wasanaeth, Caffaeliad, TG Gweinyddol, Rheoli Prosiectau, Ymchwil a Datblygu (a phob gwasanaeth pen desg ar gyfer ysgolion cynradd) yn gostau sefydlog waeth beth yw nifer yr ysgolion a wasanaethir.

5. Rydym yn credu bod dealltwriaeth ar ran y mwyafrif o ysgolion eu bod nhw'n cefnogi egwyddor cadw arian dirprwyedig.

6. Awgrymodd adolygiad diweddar o wasanaethau cyfredol bod pob ysgol eisiau, ac mae angen arnynt, y gwasanaethau y mae TG Corfforaethol yn bwriadu eu darparu.

Mewn arolwg diweddar (Ebrill 2004), roedd lefelau bodlonrwydd yn uwch ar gyfer Band Eang a TG Gweinyddol nag yr oeddent ar gyfer y Cwricwlwm (ond canfuwyd bod hyn yn dda ac yn gwella). Y brif feirniadaeth oedd cefnogaeth ben desg gwricwlaidd

Mae'r gwasanaethau Band Eang a TG Gweinyddol yn defnyddio ffyrdd o gyflwyno gwasanaeth sydd wedi'u rheoli'n gaeth, maen nhw'n defnyddio offer o safon, maen nhw'n gweithio yn ôl arian argadwedig neu ganolog, ac fe'u rheolir gan TG Corfforaethol (a gydnabuwyd mewn archwiliad Awdurdod Lleol diweddar â rhagolygon da am welliant.

Ni reolwyd systemau pen desg cwricwlaidd gan TG Corfforaethol. Dirprwyir arian ar gyfer y swyddogaeth hon, mae offer yn dod mewn o bob math o lefydd. O ganlyniad i hyn mae disgwyliad ysgolion am wasanaeth da yn afrealistig am fod y stoc o ansawdd a math amrywiol.

Dan Reolaeth Gorfforaethol a chyda ffocws ar fanyleb a math diffiniedig gyda set gyson o feddalwedd a reolir, mae gan y rhan hon o'r gwasanaeth bob cyfle o wella i gyflawni lefel uchel o fodlonrwydd.

CWESTIYNAU DISGWYLIEDIG

Gwasanaeth a Reolir yn y Sector Cynradd

Yn y sector cynradd, pam mae'n rhaid i mi gael set o feddalwedd a reolir?
Dau reswm. Mae gwrthdaro rhwng meddalwedd yn un o'r prif resymau pam mae angen sylw ar gyfrifiaduron. Wrth gwrs, mae hyn yn llai o broblem wrth i feddalwedd ddod yn fwy cadarn ac mae modd ei ddefnyddio mewn porwr gwe. Po fwyaf afreolus y meddalwedd, mwyaf yw'r posibilrwydd o wrthdaro. Hefyd, po fwyaf y meddalwedd sydd, mwyaf y staff sydd eu hangen i gyflawni'r gweithgaredd, a mwyaf y gost. Nid yw 'a reolir' yn golygu dewis 'cyfyngedig'. Mae'n ymwneud yn fwy ag ymchwilio i a chynllunio'r gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio.

Ond beth os ydw i eisiau mwy o reolaeth dros y meddalwedd rwyf eisiau ei ddefnyddio gyda fy nisgyblion?
Byddwn yn gweithio i ddarganfod beth yw'r amcanion dysgu wrth ddefnyddio meddalwedd ac yn ceisio dod i gytundeb ynghylch pa feddalwedd sy'n cyflawni'r amcanion hyn.

Mae ffyrdd eraill o gefnogi amrywiaeth. Gallem ddarparu cefnogaeth dechnegol atodol. Nid yw hyn wedi'i gostio yn y model gwasanaeth ac felly byddai'n rhaid i hyn fod ar gael am dâl ychwanegol (h.y. nodwedd ddewisol). Fel arall, gellid hyfforddi aelod o staff yr ysgol i wneud cynnal a chadw meddalwedd syml a gellir cyflawni hyn o fewn y cyllidebau sydd ar gael.

Cyllid Ysgol Uwchradd

Rwyf mewn ysgol uwchradd. Pam mae'n rhaid cadw'r ariannu dirprwyedig cyfredol?

Bydd yr ariannu dirprwyedig yn cael ei rannu i adlewyrchu cefnogaeth gwricwlaidd a chefnogaeth dechnegol (bydd hyn yn wir yn achos ysgolion Cynradd hefyd). Bydd yn rhaid cadw'r costau sefydlog priodol y mae eu hangen i redeg gwasanaeth technegol ar gyfer ysgolion Uwchradd. Mae angen i ysgolion Uwchradd feddwl am y cadw hyn ynghyd â'r cynnydd yng nghost eu cefnogi nhw o arian dirprwyedig traddodiadol a'r budd maent yn ei dderbyn o ffynonellau ariannu eraill. Yr ysgolion Uwchradd sydd â'r galw mwyaf ar arian nas dirprwyir – staff canolog ar y rhwydwaith Band Eang, amser ymchwil a datblygu a rheoli prosiectau. Mae ysgolion Uwchradd eisiau'r cynnyrch mawr sy'n costio llawer o arian. Bron bob amser bydd y cynnyrch hwn yn cael hwb ariannol sylweddol neu eu talu gan yr AALl, felly maen nhw'n manteisio yma hefyd. Mae eu cyswllt band eang yn costio mwy hefyd.

Ysgolion a chyflenwyr allanol

Rydym mewn cytundeb lefel gwasanaeth gyda chyflenwydd allanol. Beth fydd yn digwydd i ni?

Mae'r AALl yn cydnabod y bydd problemau trosglwyddo a bydd yn trafod y rhain gydag ysgolion unigol.

CWESTIYNAU DISGWYLIEDIG

A fydda i'n gallu dewis a dethol meysydd gwasanaeth?

Un CLG sydd. Costir pob agwedd ar Gefnogaeth Dechnegol fel un maes gwasanaeth ac fe'i gyflwynir fel hynny. Costir cefnogaeth ddysgu gwricwlaidd ar wahân ac felly mae modd ei dewis ar wahân (Maes Gwasanaeth 4). Nid oes rhaid i chi ddewis unrhyw faes gwasanaeth penodol (gweler y rhestr ar dud. 5 ac yn Atodiad 1) ond nid oes modd i ni leihau cost yr elfen cefnogaeth dechnegol i ysgol unigol, ac ni fyddwn yn darparu unrhyw gyngor neu gyflwyno'r gwasanaeth hynny mewn unrhyw ffordd arall.

Beth yw buddion a risgiau bod yn rhan o wasanaeth o 2005 ymlaen?

Pwyntiau i'w nodi

Mae'r buddion yw bod yn rhan o wasanaeth sydd â'r uchelgais (gyda chefnogaeth y Cyngor) o fod yn un o'r gwasanaethau cefnogi gorau i ysgolion yng Nghymru a Lloegr erbyn 2008; a reolir yn fewnol gan TG Corfforaethol, gan ddilyn dewis y mwyafrif o ysgolion a wnaethpwyd ym mis Rhagfyr 2003 – ac sydd â hanes da o gyflwyno cefnogaeth gwricwlaidd a thechnegol lwyddiannus. Mae bod yn rhan yn golygu eich bod yn elwa o unrhyw fuddsoddiadau mewn TGCh hefyd, ac mae'n gallu arbed costau o ran prynu offer a meddalwedd

Amlinellir y risgiau sy'n bodoli os nad ydych yn rhan isod:

Noder: nid yw Polisïau a Gweithdrefnau yn ymwneud â chyngor a chefnogaeth: maent yn ymwneud â rheolau y mae'n rhaid eu dilyn.

Ni fydd unrhyw fenter rwydwaith gweinyddol a chwricwlaidd ar y cyd, offer rheoli LAN, trwyddedau penodol, caffael drwy lesio neu'r cyngor, cyfleusterau mynediad pell neu gostau cefnogi eraill ar gael i ysgolion sy'n tynnu'n ôl. Ni fydd gan ysgol hawl i fenter lle mae'r arian yn dod yn rhannol o unrhyw arian dirprwyedig. Nid oes gwarant y byddwch yn derbyn unrhyw gyfraniad tuag at eich rhent band eang ychwaith.

Cofiwch hefyd y byddwn yn gofyn i chi reoli eich gwasanaethau mewn ffyrdd penodol drwy broses Bolisïau a Gweithdrefnau (gweler tud.12) er mwyn defnyddio'r rhwydwaith Band Eang. Ni chewch ganiatâd defnyddio'r rhwydwaith Band Eang fel arall. Bydd hyn yn gost ychwanegol sylweddol ac felly ni fyddwch yn elwa o'r arbedion y mae ysgolion yn y system yn eu derbyn.

Bydd unrhyw gostau na ragwelwyd er mwyn rheoli risg neu amrywiaeth sy'n codi o beidio â bod yn rhan yn cael eu codi'n llwyr ar yr ysgol.

Ni fydd modd i chi ymuno wedyn am o leiaf tair blynedd a bydd cost i ymuno â'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Atodiad 1:

MEYSYDD GWASANAETH

Maes Gwasanaeth 1. Dylunio a Rheoli Rhwydwaith Band Eang yr AALL

Dylunio a rheoli'r rhwydwaith band eang; ymchwilio i a rheoli prosiectau cynnyrch a rhwydwaith Band Eang; bod yn Ddarparwr Gwasanaeth ISP ar gyfer y Rhyngrwyd; mynediad i'r Rhyngrwyd gyda hidlo; cyfnewid e-bostiau; comisiynu ymgynghori a phrosiectau; cyfleuster desg gwasanaeth ar gyfer materion rhwydwaith.

Gwasanaethau Rhwydwaith ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd – i'w datblygu a'u costio

- Mynediad i grwpiau newyddion addas
- Mynediad Pell
- Cynadledda Fideo
- Amgylchedd Rhith-ddysgu
- Rhith-rwydweithiau preifat

Rhent llinell

Bydd yn rhaid penderfynu ar gostau dyraniad yn y dyfodol, ond bydd yr AALl yn ymdrechu i gadw'r rhain yn gost mor isel â phosib ar gyfer ysgolion yn y CLG.

Rhyngrwyd ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

a) Cysylltiad rhyngrwyd i'r ysgol drwy rwydwaith LICC (uwchradd 100mb; cynradd 10mb yn gyffredinol)
b) Pwynt cysylltu gyda LAN yr ysgol
c) Rheoli'r rhwydwaith, gan gynnwys gwrthiant a rheoli lled band
ch) Cofrestru enw parth a chynnig DNS i ysgolion
d) Desg gymorth fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer materion cysylltiad band eang
dd) Cysylltu â 3ydd person e.e. timau Band Eang LICC ar gyfer cefnogaeth a datblygiad
e) Monitro a gweithredu yn erbyn defnydd amhriodol
f) Mynediad i'r rhyngrwyd, FTP a chyfnewid e-bostiau.

Gwasanaethau ar gyfer ysgolion Cynradd ac Uwchradd

a) Systemau canolog i gefnogi e-bostiau, DNS, Proxy a NetMeeting ysgolion ac ati
b) Strwythur Cyfeiriadur Gweithredol Addysg
c) Cyngor a dyluniad LAN ar gyfer ysgolion er mwyn iddynt optimeiddio'r rhwydwaith
ch) Opsiynau hidlo a chost trwyddedau Websense
d) Cefnogaeth ail reng ar gyfer technegwyr ysgolion
dd) Diogelwch ac amddiffyn y system
e) Ystadegau defnydd
f) Meddalwedd a chyngor amddiffyn rhag firysau, gan gynnwys cost trwyddedau Norton Anti-Virus
ff) Cynnig gwasanaethau gwe ar gyfer gwefannau ysgolion.

Polisïau defnyddio'r rhwydwaith ar gyfer ysgolion Cynradd ac Uwchradd

a) Defnyddio'r rhyngrwyd yn briodol
b) Protocolau cysylltu â'r rhwydwaith Band Eang Addysg
c) Diogelwch.

Maes Gwasanaeth 2.

Gwasanaethau a Chynnyrch Rhyngrwyd

Darparu cyngor ar-lein, diweddariadau, polisïau, fforymau ar gyfer staff ysgol a dysgu gydol oes; trosglwyddo data rhwng yr ysgol a'r AALl. Bydd modd i'r mewnrwyd ddarparu rhyngwyneb gwe.

a) Porth Cynnwys Cwricwlaidd

b) Cyngor Cwricwlaidd ar-lein

c) Rhannu Adnoddau

ch) Cyfeiriadur o Wasanaethau'r AALl

d) Trosglwyddo Data'n Ddiogel rhwng ysgolion a'r AALl

dd) Cyfrifon e-bost

e) Gwasanaethau Gwybodaeth am Gaffaeliad

f) Cyhoeddi Patrymluniau ac ati ar gyfer gwefannau'r ysgol

i'w costio a'u datblygu:

ff) Offer Asesu

g) Ystafelloedd Sgwrsio a Fforymau Caeëdig

ng) Amgylchedd Dysgu a Reolir

h) Gwe-gynadledda

i) Grwpiau newyddion

l) Systemau Olrhain a Monitro Disgyblion

ll) Fideo-gynadledda - grŵp ac unigol

m) Cyfleusterau Rhith-rwydwaith Preifat

n) Amgylchedd Rhith-ddysgu

Maes Gwasanaeth 3 Blaenoriaeth CSA yr AALl: Monitro a Chyngor

Darpariaeth E-ddysgu, Cefnogi a Datblygu Cwricwlwm a Hyfforddiant; comisiynau a monitro prosiectau, effeithiolrwydd ysgolion a hyfforddi; nodi a lledaenu arfer da yn TGCh ac E-ddysgu

a) Gweithredi Strategaeth TGCh ac E-ddysgu yr AALl

b) Comisiynu a rheoli secondiadau/gwasanaethau a brynwyd

c) Monitro effeithiolrwydd TGCh ac E-ddysgu ysgolion

ch) Cefnogi ysgolion wrth iddynt ysgrifennu Gweithredoedd a Pholisïau TGCh o fewn y Cynllun Datblygu Ysgolion

d) Cefnogi lledaenu arfer da wrth ddefnyddio band eang, TGCh ac E-ddysgu

dd) Gweithio gyda thimau eraill o fewn y Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o TGCh i godi safonau ar draws y cwricwlwm

e) Darparu sesiynau briffio/ymgynghori tymhorol ar gyfer penaethiaid cynradd a chydlynwyr TGCh, a sesiynau briffio TGCh ar gyfer Cydlynwyr yn y sector uwchradd, a mynychu cyfarfodydd eraill yn ôl yr angen.

Maes Gwasanaeth 4.

Gwasanaethau Cefnogi'r Cwricwlwm TGCh

Cyrsiau hyfforddi ar unrhyw agwedd ar y cwricwlwm TGCh; hyfforddiant ar y safle/oddi ar y safle gan gynnwys sesiynau ar ôl ysgol.

a) Cynllunio rhaglen hyfforddi flynyddol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a chynorthwywyr dysgu

b) Arwain fforymau a chynadleddau TGCh

c) Cynnal sesiynau HMS wedi'u seilio ar ganolfan neu glwstwr

ch) Dysgu mewn partneriaeth gyda thimau effeithiolrwydd addysg llythrennedd a rhifedd ysgolion (a rhai eraill fel y bo'n addas)

d) Cynnal cyfarfodydd cwricwlwm ar bob agwedd ar TGCh

dd) Cyflawni rhaglen hyfforddi flynyddol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a chynorthwywyr dysgu

e) Cefnogaeth wrth ddarparu cynnwys sy'n seiliedig ar y we er mwyn cefnogi dysgu ac addysgu

Nodweddion dewisol

f) Cynnal HMS yn yr ysgol

ff) Cyflwyno gwersi arddangos mewn ysgolion

Maes Gwasanaeth 5. Cefnogaeth a Hyfforddiant Technegol TGCh

Hyfforddiant a chyrsiau hyfforddi yn yr ysgol/oddi ar y safle ar TG ar gyfer y swyddfa (heblaw am SIMS); hyfforddiant ar gyfer technegwyr ysgolion.

a) Cynllunio a chyflawni rhaglen hyfforddi flynyddol ar gyfer technegwyr ysgol (ysgolion Uwchradd yn unig)

b) Darparu rhaglen hyfforddi a gytunwyd arni, cyhoeddusrwydd, threfnu cyfleusterau archebu. Casglu ffigurau presenoldeb/absenoldeb, gwerthuso'r ddarpariaeth a rhoi adborth perthnasol I ysgolion

Nodweddion dewisol a delir ar sail defnyddiwr yn unig:

c) Amrediad o gyrsiau hyfforddi sy'n cynnwys, ond heb gael eu cyfyngu i:

I. Cwrs cyflwyniad sylfaenol i systemau TG ysgolion (yn cynnwys diogelwch sylfaenol, proffiliau, defnydd o e-bost, Rhyngrwyd, Word ac Excel I ddechreuwyr
II. Defnydd uwch o gynnyrch MS Office
III. Defnyddio TGCh ar gyfer rheolaeth

ch) Bydd cyfleusterau hyfforddi o fewn Abertawe'n rhedeg cyrsiau ar gyfer gweithwyr ysgol, llywodraethwyr a lle bo'n briodol, staff yr AALl. Darperir costau ar sail un diwrnod cwrs ar gyfer hyd at x mynychwr, gan gynnwys costau gweinyddu, dogfennaeth hyfforddi a lluniaeth ysgafn

d) Darparu gofynion hyfforddi lleol ar sail un i un neu un i nifer bach o fewn ysgolion, gan gynnwys sesiynau ar ôl ysgol

Maes Gwasanaeth 6. Gwasanaeth Caffael

Paratoi manylebau ar gyfer caledwedd; contractau prynu a lesio; sicrhau cydymffurfiad; gwaredu

a) Darparu gwasanaeth caffael llawn ar gyfer ysgolion ar gais. Bydd hyn yn cwmpasu'r holl offer, gan gynnwys y ceblau a'r meddalwedd y mae eu hangen i gynnal gwasanaeth TGCh cynhwysfawr yn yr ysgol

b) Darparu cyngor annibynnol ynghylch cyflenwyr posib yr offer neu'r meddalwedd

c) Os yw'n briodol, trafod gofynion yr ysgol a darparu'r cyngor y mae ei hangen i gytuno ar y fanyleb fanwl gywir

ch) Datblygu manyleb PC a blwch offer meddalwedd safonol yr AALl ar gyfer y sector cynradd a'r sector uwchradd

d) Rheoli rhaglen lesio neu brynu ar gyfer cyfrifiaduron gyda manyleb yr AALl

dd) Darparu proses gaffael i gael yr offer pen desg canlynol:

- Offer rheoli, teganau robot, ac ati
- Taflunwyr data a byrddau gwyn rhyngweithiol
- Cyfrifiadur Pen desg
- Cyfrifiadur Gliniadur
- Monitorau, bysellfyrddau a dyfeisiau pwyntio
- Cyfrifiadur Cledr llaw
- Llechen gyfrifiadurol
- Argraffwyr, sganwyr a pherifferolion eraill

e) Darparu'r ysgol â manyleb fanwl y mae modd i'r ysgol ei defnyddio fel sail i archeb prynu, neu ddogfennaeth lle mae rheoliadau ariannol yn gofyn am bris neu dendr cystadleuol

f) Bod yn gyfrifol am ddatrys unrhyw broblemau gyda'r cyflenwr yn achos offer gwallus neu elfennau o'r archeb sydd ar goll

ff) Caffael meddalwedd busnes neu gwricwlwm

g) Rheoli proses waredu ar gyfer offer a brynwyd ar les

ng) Cyswllt data FMS ar gyfer prynu o County Supplies

Maes Gwasanaeth 7.

Cyfleuster Desg Wasanaeth

Darparu cyfleuster desg wasanaeth, gan gynnwys derbyn a phrosesu galwadau a weithredwyd gan drydydd person. Bydd hyn yn ymwneud â TG Gweinyddol a materion cwricwlaidd a Band Eang

a) Cymryd 'perchnogaeth' ar bob galwad am gefnogaeth i'r Ddesg Wasanaeth

b) Darpariaeth yn ystod oriau gwasanaeth craidd (i'w drefnu)

c) Darpariaeth yn ystod cyfnodau gwyliau fel y Nadolig, y Flwyddyn Newydd, y Pasg ac ati, dan drefniadau penodol

ch) Mynediad i'r Ddesg Wasanaeth drwy rybuddion o'r gweinydd, ceisiadau dros y ffôn, patrymlun e-bost a mynediad a seilir ar y we ar gyfer Ceisiadau am Newid ac adrodd am wallau o fewn a'r tu allan i'r oriau craidd

d) Galwadau i'w gwneud gan staff dynodedig yn yr ysgol

dd) Symud i gefnogaeth lefel gyntaf ar gyfer problemau cyffredin

e) Ymdrin â Cheisiadau am Newid

f) Rheoli ffurfweddu a rhoi labeli ased ar offer

ff) Rheoli digwyddiadau

g) Pwynt cychwyn ar gyfer gwasanaethau cefnogi a ddarperir o ran caledwedd, meddalwedd a systemau sy'n cael eu defnyddio yn yr ysgol

ng) Adborth rheolaidd ar gynnydd o ran datrys problemau

h) Darparu sesiynau briffio a chyhoeddi arweiniad, nodiadau arfer da, cyfarwyddiadau, lle bo'n berthnasol, drwy fewnrwyd ysgolion yr AALl

Maes Gwasanaeth 8. Cefnogaeth TG Gweinyddol (SIMS yn bennaf)

Cefnogaeth ar fodiwlau SIMS, i ysgolion ac ar gyfer defnyddwyr yn yr AALl fel ei gilydd gan gynnwys pob gosodiad ac uwchraddiad; mae angen rheolaeth data fel rhan o reoli gwybodaeth; hyfforddiant; cefnogaeth ar gyfer materion eraill sy'n ymwneud â gweinyddiaeth.

a) Gwasanaeth cefnogi cynhwysfawr ar gyfer meddalwedd SIMS mewn ysgolion

b) Cynnig gwasanaeth ar gyfer rhedeg SIMS mewn ysgolion drwy ddarparu a rheoli gweinydd SQL

c) Cynhyrchu arweiniad ar ddefnyddio meddalwedd a systemau ar Fewnrwyd yr Awdurdod

ch) Ymateb i bob ymholiad o ran defnyddio'r meddalwedd

d) Cynnal a chadw ac uwchraddio'r meddalwedd er mwyn darparu cefnogaeth sy'n gwella bob amser

dd) Cefnogi ysgolion wrth iddynt gynhyrchu a throsglwyddo'r holl ddata i'r AALl a Chynulliad Cymru

e) Cefnogi fersiynau presennol y cynnyrch a fersiynau newydd o SQL Server fel ei gilydd

f) Darparu cefnogaeth i is-adrannau priodol yr AALl gan ddefnyddio'r pecyn

ff) Darparu Canolfan Ddata ar gyfer gweinyddion sy'n rhedeg meddalwedd SIMS ar gyfer ysgolion

g) Darparu pob trwydded ar gyfer modiwlau craidd SIMS

ng) Hyfforddiant ar gyfer staff gweinyddol a dysgu dynodedig ysgolion ym mhob modiwl SIMS

h) Cefnogaeth hyfforddi ar gyfer pecynnau SIMS ar rwydweithiau cwricwlaidd

i) Cyngor ar y datrysiad gorau i ofynion Gweinyddol ysgolion

l) Cefnogi system drosglwyddo data diogel RM Secure Net

ll) Cefnogi cynnyrch Microsoft Office

Maes Gwasanaeth 9. Cefnogi Systemau Pen Desg a'r Rhwydwaith Gweinyddiaeth a Chwricwlwm

Cefnogaeth ar gyfer isadeiledd rhwydwaith yr ysgol, gan gynnwys gweinyddion, gweithfannau, perifferolion ac offer cyfathrebu, gan gynnwys cadw wrth gefn, diogelwch, cyfleusterau argraffu, meddalwedd gwrth firws; cefnogaeth wrth weithredu'r system; cynnal a chadw offer dan oed ac o fath arbennig

Diffinnir cefnogaeth fel rhoi cyngor i gynnal gwasanaeth effeithiol ac atgyweirio unrhyw wallau sy'n codi gyda'r gwasanaeth. Tynnir llinell rhwng Cefnogaeth i ysgolion Cynradd ac Arbennig (C) ac ysgolion Uwchradd (U) ac ar gyfer y ddau sector (pob ysgol). Os nad yw'n cael ei nodi ar gyfer sector ysgol, bydd y gwasanaeth y tu allan i gwmpas y CLG.

Mae'r nodweddion craidd canlynol yn gymwys ar gyfer pob ysgol:

a) Cynnal a chadw system reoli stocrestr effeithiol a chynhwysfawr ar gyfer pob ased caledwedd a meddalwedd ar system ASSYST y Ddesg Gymorth a brynwyd drwy lesio, a/neu'r cynllun DROP ar gyfer TG Gweinyddol

b) Cysylltu â'r cyflenwr i ddatrys unrhyw broblemau gyda chynnyrch dan warant a brynwyd drwy gaffaeliad

c) Darparu cyngor i ysgolion i sicrhau bod gallu a dibynadwyedd digonol yn cael eu cynnal ar gyfer isadeiledd y rhwydwaith

ch) Cefnogaeth ym mhob agwedd ar ddiogelwch y rhwydwaith

d) Ymweliadau â'r ysgolion i weithredu adolygiad blynyddol er mwyn darparu cyngor ar wella perfformiad ac effeithlonrwydd y rhwydwaith ac ati.

dd) Darparu cefnogaeth dechnegol ail reng ar gyfer rhwydweithiau cysylltiedig sy'n defnyddio SIMS (Uwchradd yn unig, mae'n debyg)

Mae'r canlynol hefyd yn nodweddion craidd, ond ar gyfer ysgolion cynradd yn unig. Mae'n bosib bod modd i ysgolion Uwchradd eu cyrchu hefyd ar sail ddewisol

e) Gwasanaeth cefnogi cynhwysfawr ar gyfer isadeiledd TGCh ysgol

f) Cefnogaeth wrth ffurfweddu pob cyfrifiadur pen desg, gliniadur, dyfeisiau llaw a gweinyddion

ff) Cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau argraffu, wedi'u rhwydweithio ac unigol fel ei gilydd

g) Cefnogaeth ar gyfer cysylltiadau rhyngwyneb rhwydwaith, gan gynnwys ceblau, cardiau rhwydwaith, switshis, hybiau ac ati

ng) Cefnogaeth ar gyfer materion ffurfweddu systemau

h) Uchafswm cytunedig ar nifer yr ymweliadau â phob ysgol i osod systemau gweithredu, uwchraddio ac ati.

i) Gosod a ffurfweddu offer neu feddalwedd, yn seiliedig ar hawl a gytunwyd. Darparu sesiynau ymgyfarwyddo sylfaenol â'r offer ar gyfer staff. Bydd trefniadau ar wahân ar gyfer gosod y ceblau.

Maes Gwasanaeth 10. Caledwedd a Meddalwedd

Gosod a ffurfweddu meddalwedd cwricwlaidd; gwasanaeth cynnal a chadw meddalwedd ar gyfer offer, gan gynnwys darnau a llafur

Tynnir llinell rhwng cefnogaeth i ysgolion Cynradd ac Arbennig (C) ac ysgolion Uwchradd (U) ac ar gyfer y ddau sector (pob ysgol). Os nad yw'n cael ei nodi ar gyfer sector ysgol, bydd y gwasanaeth y tu allan i gwmpas y CLG.

a) Pob atgyweiriad i offer dan warant a gafodd ei gaffael drwy TG Corfforaethol (C/U)

b) TG Corfforaethol i weithredu'r warant honno ar ran yr ysgol (C/U) ac ailosod meddalwedd ar offer pen desg a reolir (C)

c) Bydd TG Corfforaethol yn darparu rheolaeth digwyddiadau lefel gyntaf drwy'r Ddesg Wasanaeth ar gyfer gwallau mewn ceblau LAN ac yn rhyngwynebu â chyflenwyr trydydd person er mwyn datrys gwallau'n brydlon (C)

ch) Rheoli gwasanaeth gwaredu ar gyfer pob math o offer TG ysgol a brynwyd dan les gaffael y Cyngor (C/U), a sicrhau bod y broses yn cael ei gweithredu mewn dull ecogyfeillgar a bod pob data ar yr offer neu gyfrwng TG yn cael ei ddileu (C)

d) Ffynonellu, a sicrhau ansawdd atgyweiriadau trydydd person y mae eu hangen ar ysgolion

Mae'r canlynol yn nodweddion craidd ar gyfer ysgolion Cynradd yn unig. Mae'n bosib bod modd i ysgolion Uwchradd eu cyrchu hefyd ar sail ddewisol.

dd) Gosod a ffurfweddu meddalwedd pan ofynnir am hyn gan ysgolion, yn seiliedig ar hawl a gytunwyd

d) Cysylltu â'r AALl a chyflenwyr meddalwedd er mwyn datrys materion ffurfweddu, ymgyfarwyddo sylfaenol â defnyddio'r meddalwedd ac, o bosib, hyfforddi

e) Yn achos gwasanaethau rhwydweithio lleol, cyngor a gwiriadau diagnostig ar geblau a gwifrau cysylltu gwallus

Mae'r canlynol yn nodweddion dewisol ar gyfer pob ysgol. Ni fydd y gweithgareddau hyn yn cael eu rhedeg gan TG Corfforaethol ond gan gefnogaeth trydydd person

f) Gwasanaethau Cynnal a Chadw ar gyfer atgyweirio neu amnewid caledwedd gwallus neu ddarn gwallus nad yw'n dan warant, gan gynnwys pob cost llafur cysylltiedig

ff) Cynnig gwasanaeth cynnal a chadw caledwedd llawn i ysgolion ar gyfer pob offer nad yw'n destun trefniad gwarant dan fanyleb ac oedran (5 oed yn ôl pob tebyg) a gytunwyd

g) Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, cyflenwi darnau newydd sy'n addas i'r diben a darparu manylion llawn i'r ysgol am ddarnau a dynnwyd ymaith ac a amnewidiwyd

ng) Dileu pob data ar ddarn a amnewidiwyd lle bo'n berthnasol a darparu tystysgrif difetha neu ddileu fel y bo'n addas

h) Bydd gwaith ar argraffwyr yn cynnwys taflenni bwydo ond nid nwyddau traul oni bai bod y cynhyrchwr yn argymell bod nwyddau traul yn cael eu gosod gan beirianwyr cymwys yn unig

i) Darparu cefnogaeth i ysgolion y tu allan i oriau craidd (mewn noson agored, er enghraifft) ar gyfradd a gytunwyd

Atodiad 2:

GWASANAETHAU TECHNEGOL

Crynodeb o'r Cyfrifoldebau

Crynodeb o'r Cyfrifoldebau: AALl/TG Corfforaethol ac Ysgolion
Dylai'r cyfrifoldeb ar gyfer rheoli datblygiad yr isadeiledd a darpariaeth y gwasanaeth fod fel a ganlyn:

Elfen yr isadeiledd	Cyfrifoldeb	Nodiadau
Dylunio ac ariannu rhwydwaith Band Eang Addysg (heb gynnwys rhent llinell)	AALl	Telir y rhent llinell gan arian canolog a grantiau am y flwyddyn 2004-2005. Mae mecanwaith ariannu y dyfodol i'w benderfynu
Systemau Gweinydd Cwricwlaidd Canolog ar gyfer systemau Pen Desg Ysgolion Cynradd	AALl	Mae'r AALl wedi ariannu i'r rhain gael eu prynu rhwng 2005 a 2008. Byddant yn gyfrifoldeb y tîm cefnogi canolog.
Gweinyddion ychwanegol ar gyfer anghenion ysgolion cynradd unigol	Ysgol	Mae'r ysgol yn gyfrifol am ariannu gweinyddion o'r fath, ond dylent gydymffurfio â chanllawiau'r AALl er mwyn cyfateb â defnydd band eang.
Gweinyddion Cwricwlaidd ar gyfer Cyfeiriadur Gweithredol mewn ysgolion Uwchradd	AALl a'r Ysgol	Bydd yr AALl yn darparu'r gweinydd a bydd yr ysgol yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw a'i reoli (heblaw am faterion gwarant)
Systemau cebl rhwydwaith lleol mewn ysgolion Cynradd ac Arbennig	TG Corfforaethol a'r Ysgol	Mae TG Corfforaethol yn gyfrifol am lunio'r fanyleb a'i rheoli. Mae'r ysgol yn gyfrifol am dalu am waith y contractwr
Systemau Pen Desg ysgolion Cynradd ac Arbennig	TG Corfforaethol	Bydd y rhain yn cael eu cefnogi gan TG Corfforaethol gyda chontract cynnal a chadw ar gyfer gwallau mewn caledwedd dan warant lle mae'r offer wedi'i gaffael drwy TG Corfforaethol.
Systemau Cebl Rhwydwaith Lleol Ysgolion Uwchradd	Ysgol	Mae'r ysgol yn gyfrifol am y gwaith hwn ond mae modd cysylltu â TG Corfforaethol am gymorth wrth asesu a dylunio'r gofyniad, ac mae'n gallu darparu cefnogaeth 2^{il} reng a 3^{ydd} rheng ar gyfer technegwr ysgol.
Gweinyddion ysgolion Uwchradd	TG Corfforaethol a'r Ysgol	Mae TG Corfforaethol yn gyfrifol am weinyddion SQL Gweinyddol. Mae'r ysgol yn gyfrifol am weinyddion Cwricwlaidd.
Systemau Pen Desg Ysgolion Uwchradd	Ysgol a TG Corfforaethol	Mae'r ysgol yn gyfrifol am faterion cefnogaeth ar gyfer pob system ben desg gwricwlaidd a gweinyddol. Mae TG Corfforaethol yn cysylltu â'u cyflenwyr ynghylch materion sy'n codi o'u caffael ac yn darparu cefnogaeth 2^{il} reng a 3^{ydd} rheng ar gyfer technegydd yr ysgol.